

CYFARFOD Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf I'W GYNNAL YN Y Lido, Parc Coffa Ynysangharad, Pontypridd CF37 4PE ddydd Gwener, 7 CHWEFROR, 2020 am 2.00PM.

Dolen gyswllt: Sarah Handy (Swyddog Ymchwil Craffu Graddedig) a Sarah Daniel (Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd) (01443424099)

AGENDA

1. 5 Swyddogaeth Statudol Graidd Pwyllgor Trosolwg A Chraffu Ar Y Cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Atgoffir aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd, fel y nodir yn ei gylch gorchwyl, bod eu swyddogaethau statudol craidd yn cynnwys: -

- Adolygu neu graffu ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Bwrdd neu'r camau mae'r Bwrdd yn eu cymryd;
- Adolygu neu graffu ar drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
- Paratoi adroddiadau neu wneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch ei swyddogaethau neu'i drefniadau llywodraethu;
- Ystyried materion sy'n ymwneud â'r Bwrdd fel y gall Gweinidogion Cymru gyfeirio atyn nhw ac adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny; a
- Cyflawni swyddogaethau eraill mewn perthynas â'r Bwrdd sydd wedi'u gosod arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2. Datgan Buddiant

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau o'r Pwyllgor yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e, a mynegi natur y buddiant personol hwnnw: a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

3. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2019 yn rhai cywir.

5 - 10

4. Rhaglen Waith Ar Gyfer Y Dyfodol

Derbyn Mr Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a fydd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r trefniadau craffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20, gan gynnwys y Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol.

11 - 20

5. Y Diweddaraf Am 'Live Lab'

Derbyn Mr Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a fydd yn darparu trosolwg a diweddariad ynglŷn â'r cynnydd mewn perthynas â gwaith y Bwrdd ar 'Live Lab' Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

6. Diweddariad - Rhagnodi Cymdeithasol

Derbyn Mr Kelechi Nnoaham, Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a fydd yn darparu trosolwg a diweddariad ynglŷn â'r cynnydd mewn perthynas â gwaith y Bwrdd o ran Rhagnodi Cymdeithasol.

7. Y Cynnydd Diweddaraf - Hwb Glynrhedynog

Derbyn diweddariad yn dilyn ymweliad anffurfiol Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf â Hwb Glynrhedynog ar 22 Tachwedd 2019.

8. Trafod Unrhyw Eitemau Eraill, Fel Y Mae'r Cadeirydd Yn Eu Gweld Yn Briodol.

9. Adroddiadau Er Gwybodaeth

D.S. Mae modd gweld Adroddiadau er Gwybodaeth trwy'r dolenni canlynol:-

- [ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O FYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS](#)
- [COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF.](#)

(I'r Aelodau gydnabod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad(au). Mae modd anfon unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r eitem i Craffu@rctcbc.gov.uk)

Cylchrediad:-

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: C. Barry, D. Isaac, M. Jones, T. Skinner a K.
O'Donovan

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol: J. Bonetto, G. Caple, W. Jones, M. Powell a A. Cox

Aelodau cyfetholedig:

Mr M. Jehu OBE – Bwrdd Iechyd Lleol

Mr J. Jenkins – Cyngor Iechyd Cymuned

Ms M. Lewis – Cynrychiolydd Dinasyddion RhCT

Mr M. J. Maguire – Cynrychiolydd Dinasyddion Merthyr Tudful